# Holi ac Ateb gyda grantï: sut i greu naratif prosiect llawn cymhelliad

19/11/2025



A community group build benches as part of the Lost Peatlands project. Photo: Neath Port Talbot Council.

Dyma Richy Pulman o gyngor Castell-nedd Port Talbot yn rhannu gwersi a ddysgwyd yn ystod eu prosiect Cysylltiadau Tirwedd – o sut i wneud eich cais yn hawdd ei ddeall, i bwysigrwydd gofyn am help.

## Ynghylch y prosiect

Ar draws 29,500 hectar o Dde Cymru, mae prosiect Mawndiroedd Coll yn dod â chymunedau ynghyd i adfer cynefinoedd sydd wedi'u difrodi ac archwilio eu treftadaeth amgylcheddol a rennir.

Gan gydweithio'n agos â sefydliadau lleol, mae'r prosiect yn darparu cyfleoedd i wella addysg, sgiliau a lles trwy weithdai a hyfforddiant. Gyda'i gilydd, mae hybiau cymunedol yn gyrru adferiad byd natur ac yn gwella cynaladwyedd ecosystemau hanfodol yr ardal, sy'n dal carbon ac yn cynnal bywyd gwyllt amrywiol.

## Beth oeddech chi'n ei chael yn fwyaf heriol am eich cais a sut wnaethoch chi oresgyn yr heriau hyn?

“Mynegi ehangder a natur gyd-gysylltiedig y prosiect yn glir, yn enwedig sut mae treftadaeth, ymgysylltu cymunedol ac adfer cynefinoedd i gyd yn cysylltu â’i gilydd. Roedd hi'n anodd ffitio popeth i mewn i fformat y cais heb golli'r naws. Gwnaethon ni oresgyn hyn drwy greu strwythur thematig clir ochr yn ochr ag amserlenni a ffeithluniau i gynrychioli cwmpas y prosiect yn weledol. Helpodd hyn i egluro'r naratif a gwneud y cais yn fwy hygyrch i adolygwyr.

“Roedd y naratif cryf hwn yn cysylltu amcanion y prosiect yn glir â’i ganlyniadau; gan ddangos sut mae pob elfen – boed ennyn diddordeb y gymuned, adferiad treftadaeth neu amgylcheddol – yn cyfrannu at ddarlun ehangach.”



Golygfa o'r awyr o adfer mawndiroedd ar y gweill. Llun: Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

## Pa un darn o gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun sy'n gwneud cais am ariannu am y tro cyntaf?

“Dechreuwch yn gynnar a rhowch ddigon o amser i chi’ch hun i siapio eich syniadau. Peidiwch ag ofni estyn allan i eraill – cydweithwyr, partneriaid neu hyd yn oed ymgeiswyr blaenorol – am adborth. Gall pâr ffres o lygaid eich helpu i weld bylchau neu gryfhau eich achos. Hefyd, cofiwch sicrhau bod eich cais yn adrodd stori llawn cymhelliad sy'n gweddu i flaenoriaethau Cronfa Treftadaeth.”

## Wrth gyflwyno eich prosiect, beth wnaeth eich synnu chi?

“Pa mor gryf y gwnaeth pobl gysylltu a’n digwyddiadau cyhoeddus. Er i ni ddisgwyl y byddai diddordeb yn y gwaith adfer mawndiroedd, rhagorodd y brwdfrydedd dros ddigwyddiadau iechyd a lles, sgiliau traddodiadol a phroffesiynol, a hanes lleol ar ein disgwyliadau. Dangosodd pa mor werthfawr y mae'r elfennau hyn wrth adeiladu cysylltiadau ystyrlon â'r gymuned.”

## Pa un peth ydych chi'n ei wybod nawr yr hoffech chi fod wedi'i wybod cyn i chi ddechrau?

“Faint o hyblygrwydd a chreadigrwydd y byddai'r cam cyflwyno'n ei ganiatáu. Yn y camau cynnar, roeddwn i'n canolbwyntio ar gwrdd â thargedau ac amserlenni, ond rydw i wedi dysgu y gall addasu i anghenion y gymuned ac ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi arwain at ganlyniadau cyfoethocach. Mae creu lle i arbrofi a chyd-greu wedi gwneud y prosiect yn fwy effeithiol.”

## Beth fu'r peth mwyaf gwobrwyol a ddaeth allan o'ch prosiect?

“Gweld pobl o wahanol gefndiroedd yn dod at ei gilydd drwy’r prosiect – boed drwy wirfoddoli, mynd i ddigwyddiadau neu ymwneud â threftadaeth a byd natur. Ochr yn ochr â hyn, mae wedi bod yn wobrwyol iawn gweld newidiadau cadarnhaol yn y dirwedd. Mae ardaloedd wedi gwella o ran bioamrywiaeth, dal carbon a hyd yn oed dadorchuddio nodweddion treftadaeth cudd. Mae gweld pobl a lle yn ffynnu gyda'i gilydd wedi bod yn ganlyniad pwerus.”

**Dyma ran o gyfres newydd o sesiynau Holi ac Ateb wedi'u harwain gan grantïon llwyddiannus**, gyda'r nod o ddileu dirgelwch y broses rheoli prosiect a rhannu profiadau ar draws y sector. Mynnwch gip ar fwy o storïau isod.




## ddordeb hefyd mewn ...

A portrait of Twimukye Mushaka, by photographer Karen Gordon, featured in the project's exhibition highlighting migrant stories in Scotland.



## community's heritage

Karen and the project team gather to celebrate the launch of the Maroon Mile at the Heart of Midlothian Memorial Clock, in the city's Haymarket.



## ory in the heart of Edinburgh

The original illuminations captured the imaginations of local people and visitors from around the UK. Photo: Whittle Productions.

## Grantee Q&A: illuminating Leamington's festival of light